

Bwydo ffydd

“Felly, o’r hyn a glywir y daw ffydd, a daw’r clywed trwy air Crist.” (adn. 17)

Beth am ddarllen Rhufeiniad 10:14–21 ac yna myfyrio

Yn ôl C. S. Lewis, petaech yn cymryd cant o bobl sydd wedi troi eu cefn ar y ffydd Gristnogol, fe fyddech yn sylwi mai ychydig iawn ohonynt sydd wedi eu perswadio yn erbyn yr Efengyl. Yr hyn fyddech yn ei ddarganfod yw fod llawer wedi rhyw hwylio i ffwrdd am na fu iddynt fwydo eu ffydd trwy astudiaeth gyson o air Duw.

Rydym ar dir peryg pan fyddwn yn esgeulus o’r Beibl, oherwydd, fel y dywed y testun heddiw, mae ffydd yn dod trwy glywed y neges ac mae’r neges yn cael ei chlywed trwy air Crist. Wrth inni ddarllen Gair Duw, yr ydym yn gwranddo ar ei lais ac mae ffydd yn tyfu yn swm y llais hwnnw. Mae Cristnogion aeddfed yn gwybod fod yr amser y maent yn ei dreulio yn astudio y Beibl yn bwydo eu ffydd yn fwy na dim. Mae Duw wedi rhoi trwy’r Gair yr hyn y mae Pedr yn ei alw yn addewidion mawr iawn a gwerthfawr (2 Pedr 1:4). Mae ffydd yn tyfu trwy gymryd meddiant o’r addewidion hynny a chredu ynddynt.

Tybed a oes rhai o’r darllenwyr yn cofio yr hen focsyst addewidion oedd i’w darganfod yng nghartrefi Cristnogion. O fewn y bocsys yma roedd yna ddarnau bychain o bapur wedi eu rholio ac arnynt addewidion yr oedd y saint wedi eu darganfod yn y Beibl. Wrth ichi ymweld â thŷ lle roedd yna focsyst addewidion, fe fyddech yn cael gwahoddiad i ddewis addewid, fel arfer wrth i chi ymadael. Yn anffodus, fe ddaeth yr ymarfer yma o dan feirniadaeth lem, yn bennaf oherwydd bod pobl yn iawn yn dadlau fod y Beibl yn cynnwys llawer mwy nag addewidion, ac oherwydd bod yna adegau yn mywyd y Cristion pan nad addewid sydd ei angen ond gair i herio y cysurus. Er hynny, er bod y bocsys yn cael eu camddefnyddio, roedd yr olwg yr oedd gan y saint ar addewidion Duw yn iachach nag agwedd llawer o Gristnogion heddiw sy’n methu â rhoi dim amser i ddarganfod yr addewidion y mae Duw am i ni gymryd meddiant ohonynt.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Jos. 1:1–9;

Salm 1:1–6; 119:161–168

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut yr oedd Josua i adnabod hyder a llwyddiant?
2. Pa sicrwydd a gawn yn y Salmuau?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i feddiannu y gwirionedd yr wyf wedi ei ddysgu heddiw. Da i mi gofio fod yr amser yr wyf yn ei dreulio yn astudio dy Air yn sicr o beri i’m ffydd dyfu. Rwy’n caru dy Air. Cynorthwya fi i’w garu fwyfwy. Yn enw Iesu. Amen.